Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Birchgrove Primary
Heol Nant Bran
Birchgrove
Abertawe
SA7 9LS

06/01/2025

Annwyl Matthew O'Brien

**Ymweliad interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gellifedw yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'i blaenoriaethau gwella'i hun yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion, craffu ar dystiolaeth a siarad â disgyblion, staff ac arweinwyr. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y ddwy flaenoriaeth wella. Dylai arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i fyfyrio ar eu llwyddiannau a chefnogi mwy o welliannau yn y meysydd hyn.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella dealltwriaeth o sut mae plant yn gwneud cynnydd trwy archwilio'r berthynas rhwng y cwricwlwm ac asesu**

- Mae staff wedi sefydlu gweledigaeth glir a chroyw ar gyfer eu cwricwlwm, gan flaenoriaethu datblygiad ehangach dysgu disgyblion o fewn cyd-destunau ystyrlon. Mae'r weledigaeth hon yn cyd-fynd yn agos ag ethos y Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, mae staff yn diffinio'n glir ddiben profiadau dysgu a sut mae'r rhain yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau trwy destunau difyr.
- Mae staff yn cynllunio'n ofalus ar gyfer dilyniant gwybodaeth a medrau y mae ganddynt nod i ddisgyblion eu hennill mewn gwersi unigol, a thros gyfnod. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i fireinio strategaethau ar gyfer arsylwi ac asesu cynnydd disgyblion, yn ogystal â rhannu mewnwelediadau i ddysgu disgyblion. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i staff fyfyrio ar ansawdd eu haddysgu a'i effaith ar ddysgu'r disgyblion. O ganlyniad, mae athrawon yn datblygu i fod yn ymarferwyr ystyriol a myfyriol sy'n gwerthuso cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn addasu eu haddysgu i ddiwallu anghenion unigol yn effeithiol.

- Mae staff yn darparu cymorth effeithiol i helpu disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a sut gallant wneud gwelliannau. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth ac yn aml yn gwneud gwelliannau ystyrlon i'w gwaith. Mae staff yn dechrau datblygu strategaethau sy'n ymestyn ymgysylltiad disgyblion ymhellach wrth iddynt fyfyrio ar eu cynnydd eu hunain a nodi'n annibynnol eu camau nesaf ar gyfer dysgu.

**Hyrwyddo dysgu a chydweithio fel tîm ymhlith staff trwy weithredu arsylwadau nas gwelwyd**

- Mae'r ysgol wedi datblygu gofod lle mae athrawon yn teimlo'n ddiogel i fod yn agored a gonest am eu harfer. Mae arweinwyr yn neilltuo amser priodol ar gyfer cydweithio a dysgu ar y cyd cyn arsylwadau nas gwelwyd, lle nad oes unrhyw un allanol yn dod i mewn i ystafell ddosbarth yr athro i arsylwi'r addysgu. Mae athrawon yn defnyddio'r amser hwn yn dda i drafod eu gwersi a rhagfynegi effaith fwriadedig eu technegau addysgu dewisol. Maent yn teimlo'n gyfforddus wrth ofyn am gyngor gan ei gilydd, ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu oddi wrth ei gilydd o fewn ac ar draws sectorau a meysydd arbenigedd.
- Mae'r arfer o ran defnyddio arsylwadau nas gwelwyd yn cynnig cyfle defnyddiol i athrawon gael trafodaeth fanwl ac archwilio un agwedd ar eu harfer. Mae athrawon yn dechrau gweithio gyda'i gilydd fel triawdau yn effeithiol i drafod a myfyrio ar arferion addysgu unigol. O ganlyniad, maent yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u harfer eu hunain a sut i wella. Mae staff yn gwerthfawrogi'r amser a gânt i fyfyrio gyda'i gilydd ar sut i wneud eu dysgu eu hunain yn fwy pwerus ac effeithiol.
- Mae arsylwadau nas gwelwyd wedi galluogi athrawon i fyfyrio ar eu harfer eu hunain, a'i gwerthuso. O ganlyniad, maent yn dechrau gwella'u darpariaeth neu'u harfer sy'n dylanwadu ar eu gallu i gefnogi disgyblion. Er enghraifft, mae staff disgyblion ieuengaf wedi addasu'r ffordd y maent yn arsylwi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth well o sut mae disgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso'u medrau wrth iddynt chwarae.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6702236

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol